O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 2507(Cy. 246)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2013

Gwnaed	*1 Hydref 2013*
Yn dod i rym	*3 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Llundain – Abergwaun (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2013.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd yn Hwlffordd yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2003**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 1 Hydref 2013

R Morgan

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(2) O.S. 2003/3138/Cy.302

YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 157 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett hyd at bwynt ar Narberth Road sy'n 1196 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett.

(ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan Scotchwell hyd at bwynt ar Fishguard Road sy'n 125 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Scotchwell Road.